

Rhif y prosiect: Pwyllgor Cyngori Cymru
Awdur: Liz Nash

Cofnodion Cyfarfod rhif 72 Pwyllgor Cyngori Cymru (ACW) (12 Mawrth 2019)

Er gwybodaeth

Rhif y ddogfen: ACW73 (3) **Cyfarwyddwr y prosiect:** Eleanor Marks
Cyflwynwyd i: ACW 73 **Rheolwr y prosiect:**
Cyflwynwyd gan: Liz Nash **Dyddiad ysgrifennu:** 3 Ebrill 2019
Noddwr y prosiect: Elinor Williams

1. Mewnbyn y gofynnwyd amdano

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod rhif 72 o Bwyllgor Cyngori Cymru a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2019.

2. Crynodeb o'r dadansoddiad

YN BRESENNOL:

Y Pwyllgor:

Hywel Wiliam (Cadeirydd) (HW)

Robert Andrews (RA)

Andrew Board (Aelod) (AB)

Peter Trott (Aelod) (PT)

Aled Eirug (Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys) (AE) – rhan o'r cyfarfod

Karen Lewis (Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau) (KL)

Staff Ofcom:

Eleanor Marks, Cyfarwyddwr, Cymru (EM)

Elinor Williams, Pennaeth, Materion Rheoleiddio Cymru (EW)

Joanna Davies, Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg (JD)

Lloyd Watkins, Cyngorydd Materion Rheoleiddio (LW)

Liz Nash, Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol, Cymru (LN)

Llundain

Emma McFadyen, cynrychiolydd y Gwledydd yn y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig (EMcF)

Katie Pettifer, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr yn y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig (KP)

Vanessa Hyland, Pennaeth Ymchwil Cynnwys (VH)

Anthony Szykaruk, Pennaeth, Polisi Cynnwys (AS)

Garreth Lodge, Cysylltai, Cyngorydd Polisi Cynnwys (GL)

Gary Clemo, Pennaeth, Ymgynghorydd Technoleg (GC)

Alistair Henwood, Dadansoddwr Strategaethau/Polisiau (AH)

Sophie Richings, Rheolwr Polisi Cyhoeddus (SR)

Eitem 1: Cyflwyniad y Cadeirydd ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1. Rhoddodd y Cadeirydd, Hywel Wiliam (HW), groeso i'r Aelodau a staff Ofcom Cymru i gyfarfod rhif 72 o Bwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom (ACW), a gynhaliwyd yn swyddfeydd Ofcom Cymru. Dywedodd fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Jacqui Gregory.

Eitem 2: Diweddarau datganiadau o fuddiannau'r Aelodau

2. Dywedodd Ruth McE ei bod wedi cael ei phenodi yn Gadeirydd Ffilm Cymru.

Eitem 3: Cofnodion Cyfarfod rhif 70 – Materion yn Codi a chamau gweithredu

3. Adolygwyd Cofnodion cyfarfod rhif 71 o Bwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom a nodwyd y diwygiadau. LN i'w newid a'u hanfon at HW i'w cymeradwyo'n derfynol.

CAM GWEITHREDU – LN

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd ac Ofcom fod yr holl gamau gweithredu a oedd wedi codi o Gofnodion cyfarfod rhif 70 wedi cael eu gweithredu.

5. Nodwyd y camau gweithredu canlynol o gyfarfod rhif 71:

- a. Cofnod 6 – wedi gweithredu
- b. Cofnod 9 – wedi gweithredu
- c. Cofnod 15(d) – wedi gweithredu
- d. Cofnod 15 (f) – Gofynnodd HW/aelodau a ellid cynnal cyfarfod y tu allan i Gaerdydd – o bosibl ar gyfer cyfarfod mis Medi yng Ngogledd Cymru. Roedd aelodau'n awyddus i ddilyn fformat tebyg i ymweliadau blaenorol â Gogledd Cymru gan ychwanegu y bu'n ymweliad gwerthfawr.

CAM GWEITHREDU – PWYLLGOR CYNGHORI CYMRU/EW

- e. Cofnod 39 – Roedd y tîm Cysylltu'r Gwledydd wedi cynnig arddangos y dashfwrdd data i'r aelodau. Bydd Ofcom Cymru'n mynd ar drywydd hyn.

CAM GWEITHREDU: Ofcom Cymru

- f. Cofnod 53 – Mae aelodau'n dal yn awyddus i ddod ynghyd yn anffurfiol. HW/EW i awgrymu dyddiadau.

CAM GWEITHREDU – HW/EW

- g. Cofnod 56 – wedi gweithredu.

Eitem 4: Adroddiad y Cadeirydd

6. Rhoddodd HW ddiweddariad llafar o weithgareddau'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf.
7. Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am ddatblygiad y broses o recriwtio aelod ar gyfer Pwyllgor Cyngori Cymru. Roedd Ofcom wedi cael nifer da o geisiadau a byddai'r gwaith didoli'n cael ei wneud ar 21 Mawrth.
8. Ymgynghoriad Gwnaed y Tu Allan i Lundain – Diolchodd HW i'r aelodau am eu cyfraniad at yr ymateb a ddarparwyd ar ran Pwyllgor Cyngori Cymru.

9. Atgoffodd yr aelodau am y Seminar Radio a gynhelir ar 12^{fed} Mawrth yn swyddfa Ofcom Cymru a fydd yn cael ei arwain gan Bethan Sayed AC ac roedd yn annog yr aelodau i fod yn bresennol.
10. Dosbarthodd nodyn diweddarau i'r aelodau ynghylch ei waith ar gysylltedd parciau busnes a gofynnodd i'r aelodau am unrhyw adborth.
11. Cafwyd trafodaeth bellach am gynnal un o gyfarfodydd Pwyllgor Cynghori Cymru y tu allan i Gaerdydd a chafwyd amrywiol awgrymiadau gan aelodau. Gofynnodd HW i'r aelodau anfon eu syniadau ymlaen ato ef/tîm Ofcom Cymru.

CAM GWEITHREDU: Aelodau/HW

Eitem 5: Diweddariad – Aelod ar ran Cymru ar y Bwrdd Cynnwys

12. Roedd AE wedi dosbarthu papur diweddarau cyn y cyfarfod ac ystyriwyd bod pawb wedi'i ddarllen. Tynnodd sylw at rai o brif bwyntiau'r adroddiad.
 - a. Rheoleiddio ar-lein – mae llawer iawn o feddwl a thrafod am y maes hwn ar hyn o bryd.
 - b. Mae'r llywodraeth yn awyddus i ddatblygu fframwaith i fynd i'r afael â niwed llythrennedd yn y cyfryngau, ond nid ydy hyd a lled cyfrifoldeb Ofcom yn glir ar hyn o bryd. Gellid gofyn i Ofcom ysgwyddo rôl fwy mewn llythrennedd yn y cyfryngau ac mae wrthi'n cynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn ar hyn o bryd.
 - c. Ar hyn o bryd mae'r BBC wrthi'n cynnal prawf lles y cyhoedd ar ei gynigion ar gyfer dyfodol yr iPlayer. Efallai y bydd Ofcom yn cynnal ei asesiad ei hun o'r gwerth cyhoeddus ar ôl hyn.
 - d. Bydd Ofcom yn cynnal adolygiad o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC ac roedd AE yn annog y Pwyllgor i gyfrannu at y cylch gorchwyl drafft.

CAM GWEITHREDU – PWYLLGOR CYNGHORI CYMRU

 - e. Nododd AE hefyd y bydd y Bwrdd Cynnwys yn monitro llwyddiant y Sianel BBC Scotland newydd.
 - f. Dywedodd y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud dros yr haf ynghylch amrywiaeth mewn darlledu a fydd yn cynnwys y prif ddarlledwyr gan gynnwys S4C sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan.
 - g. Dywedodd AE fod y Bwrdd Cynnwys wedi cael cyflwyniad da gan y tîm Gwybodaeth am y Farchnad ar newidiadau strwythurol yn y farchnad teledu yn y DU ac y byddai'r cyflwyniad ar gael yn nes ymlaen yn y flwyddyn – dywedodd fod y ffigurau'n drawiadol ac roedd yn annog yr aelodau i'w ddarllen.

Eitem 6: Adroddiad – Polisi Cyhoeddus

13. Ymunodd Katie Pettifer â'r cyfarfod drwy'r offer telegynhadledda ac ymddiheurodd nad oedd yn gallu bod yn y cyfarfod yn bersonol.
14. Roedd hi eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddarau ar weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf.
15. Rhoddodd KP olwg cyffredinol cyflym o ddatganiad drafft y llywodraeth ar flaenoriaethau strategol sy'n berthnasol i delegyfathrebiadau, sbectwm a phost. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi ymgynghoriad a fydd yn cau ar 27 Mawrth. Mae'n debygol y cyhoeddir datganiad yn y Gwanwyn. Bydd yn rhaid

i Ofcom wedyn nodi'r hyn y mae'n cynnig ei wneud o ganlyniad i'r datganiad ar flaenoriaethau drafft ac adrodd yn flynyddol.

16. Soniodd KP am y blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu yng nghynllun blynyddol Ofcom, yn enwedig o ran cysylltedd cyffredinol a pholisi cymdeithasol.
17. Mae disgwyl y bydd Papur Gwyn gan y Llywodraeth yn argymhell bod cylch gwaith Ofcom yn cael ei ehangu er mwyn cynnwys rheoliadau ar-lein. Mae Ofcom wrthi'n cynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn ar hyn o bryd. Ers dosbarthu ei phapur dywedodd KT wrth yr aelodau fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ysgrifennu at Ofcom.
18. Wrth ateb cwestiwn gan AB, cadarnhaodd KT fod ffi'r drwydded ar gyfer pobl dros 75 oed yn fater i'r BBC ac i'r llywodraeth yn unig.
19. Yn dilyn cais gan PT, cytunodd EM i ddsbarthu rhestr o ymgynghoriadau/prosiectau sydd ar y gweill sy'n berthnasol i Bwyllgor Cynghori Cymru. Mae'r rhain yn cael eu rhestru yn y Cynllun Blynyddol a chytunodd EM y byddai tîm Ofcom Cymru yn llunio nodyn o'r rhain ac yn ei ddsbarthu er mwyn i'r pwyllgor ymateb.

CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru

20. Wrth ystyried rheoliadau ar-lein gofynnodd RA i ba raddau y byddai hyn yn ymestyn – a oedd KT yn meddwl y byddid yn gofyn i Ofcom gynnwys fideo byw er enghraifft? Dywedodd KT fod Ofcom wrthi'n cynnal ymchwil ar hyn o bryd ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n dilyn ymchwil a gynhaliwyd ym mis Ionawr a bydd datganiad a gyhoeddir yn ystod y gwanwyn yn cadarnhau rôl Ofcom a hyd a lled ei gylch gwaith.
 21. Gofynnodd RA a oedd KT yn disgwyl i'r llywodraeth ddiweddarar diogelwch i ddarlledu digwyddiadau chwaraeon penodol am ddim gan nad yw hwn yn cynnwys Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ar hyn o bryd. Bydd KT yn holi ei chydweithwyr ac yn dod yn ôl at RA.
- #### **CAM GWEITHREDU - KT**
22. Soniodd KT hefyd fod rhaglen ymchwil gyfredol y llywodraeth ar ddefnyddio technoleg ddigidol yn rhan o gylch gwaith Ofcom i hyrwyddo dealltwriaeth o dechnoleg ddigidol. Fel y soniwyd gan AE, cadarnhaodd y dylai'r Papur Gwyn arfaethedig egluro rôl Ofcom. Fodd bynnag, ychwanegodd fod llywodraethau datganoledig yn cynnal eu gwaith ymchwil eu hunain.
 23. Pwysleisiodd KL bwysigrwydd sicrhau bod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cymryd rhan mewn materion sy'n ymwneud â llythrennedd oedolion yn y cyfryngau a'r byd digidol gan fod hwn yn faes sy'n achosi cryn bryder. Cytunodd KT i siarad â'r timau perthnasol i sicrhau bod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn chwarae mwy o ran.

Eitem 7: Adroddiad – Datblygiadau Diweddar Cymru

24. Roedd papur diweddarar wedi'i ddsbarthu'n flaenorol i'r aelodau. Tynnodd EM sylw at y pwyntiau canlynol.
 - a. Diolchodd i'r aelodau am eu cyfraniad at yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Blynyddol.

- b. Mae'r gwaith o recriwtio aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru yn dal yn parhau ac nid yw wedi dod i gasgliad eto. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau cyn gynted ag y caiff y penodiad ei gadarnhau.
- c. Ar ôl yr ymgyrch y Gorau o'ch Gwesanaeth, mae Ofcom yn gobeithio cael data am faint o ddefnyddwyr yng Nghymru sydd wedi gallu gwella eu band eang a byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â'r pwyllgor maes o law.
- d. Dywedodd HW ei bod hi'n ymddangos bod dryswch yn parhau o ran dealltwriaeth defnyddwyr o'r gwahaniaeth rhwng band eang safonol a band eang cyflym iawn. A allai Ofcom helpu gyda hyn? Mae'n ymddangos na fu cyfathrebu da o'r cychwyn. Bydd EM yn mynd â'r sylwadau'n ôl at y tîm. Dywedodd KL fod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn edrych ar y maes hwn gan ei fod yn broblem go iawn i ddefnyddwyr. **CAM GWEITHREDU - EM**
- e. Dywedodd EM ei bod wedi cwrdd ag Elan Clos Stephens a'r Athro Ian Hargreaves ac y bydd yn cwrdd â Bwrdd y BBC ar 26^{ain} Mawrth. Holodd aelodau sut y mae'r BBC yn cael adborth ar hyn o bryd gan wylwyr a gwrandawyr ers sefydlu'r bwrdd unedol newydd. Beth sydd wedi cymryd lle'r Cyngor Cynulleidfa? Bydd EM yn adrodd yn ôl i'r aelodau ar ôl ei chyfarfod. **CAM GWEITHREDU - EM**
- f. Rhoddodd EM yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am uwchgynhadledd cyfryngau ddiweddar y Sefydliad Materion Cymreig ac atgoffodd yr aelodau am y Digwyddiad Radio a gynhelir yn swyddfa Ofcom Cymru ar 13^{eg} Mawrth.
- g. Yn dilyn nodyn EM yn ei hadroddiad ynghylch llythyr Russell George ynghylch 700MHz, awgrymodd PT y dylai'r pwyllgor ddod at ei gilydd i drafod eu syniadau. Bydd PT yn nodi rhai pwyntiau mewn neges e-bost at aelodau i ddechrau. **CAM GWEITHREDU - PT**
- h. Gofynnodd KL a oedd unrhyw adborth o gyfarfodydd Ofcom Cymru gyda Llywodraeth Cymru o dan y Prif Weinidog newydd, Mark Drakeford. Dywedodd EM fod cyfarfodydd wedi cael eu trefnu gyda Dafydd Elis Thomas AC ac Lee Waters AC yn ystod yr wythnosau nesaf ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r aelodau. **CAM GWEITHREDU - EM**

Eitem 8: Trafodaeth Pwyllgor Cynghori Cymru – Adolygiad y BBC o Newyddion a Materion Cyfoes

25. Trafodaeth fewnol cyn eitem 9.

Eitem 9: Adolygiad y BBC o Newyddion a Materion Cyfoes

- 26. Croesawodd y Cadeirydd Vanessa Hyland, Anthony Szykaruk a Garreth Lodge (dros y ffôn) i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am fod yn bresennol yn bersonol. Rhoddodd y tîm gyflwyniad ar y datblygiadau diweddaraf.
- 27. Cafodd Cylch Gorchwyl yr Adolygiad ei gyhoeddi'r wythnos diwethaf ac mae'r tîm yn disgwyl cyhoeddi'r canfyddiadau mewn 6-8 mis a fydd yn cyfrannu at ein hasesiad blynyddol nesaf o berfformiad cyffredinol y BBC.
- 28. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y cyd-destun ehangach y mae BBC News ar-lein yn gweithredu ynddo, gan edrych ar sut mae pobl yn ymwneud â deunyddiau ar-lein fel rhan o'u siwrnai newyddion. Un ystyriaeth yw bod gwylwyr teledu ac ar-lein nawr yn hŷn ac mae angen i'r ymchwili asesu sut y mae newyddion yn berthnasol iddynt ac ym mha fformat.
- 29. Dywedodd y tîm fod grwpiau ffocws wedi cael eu hwyluso i fesur pa fath o newyddion y mae defnyddwyr yn chwilio amdano. Cafodd astudiaethau achos eu dylunio hefyd er mwyn

i grwpiau ffocws o Gymru gael dealltwriaeth well, ac roedd y rhain wedi cael eu dilyn gan gyfweiliadau manylach.

30. Gofynnodd AB sut mae'r tîm yn ymwneud â'r grŵp oed dan 20 i asesu sut maent yn cael gafael ar newyddion. Awgrymodd ddefnyddio ysgolion fel grwpiau ffocws a fyddai'n ffynhonnell dda o wybodaeth oherwydd gellid cynnwys yr athrawon hefyd. Byddai 'petai modd i chi bleidleisio yn 16 oed pa wybodaeth fyddai ei hangen arnoch chi ac o ble?' yn gwestiwn da. Cadarnhaodd y tîm fod 24 o grwpiau ffocws wedi cael eu cynnal ar draws y DU a oedd yn cynnwys 4 ym mhob gwlad.
31. Awgrymodd KL ddefnyddio ap ar-lein i gynnwys grwpiau mwy o bobl ifanc yn yr ymchwil, gan ddefnyddio botymau pleidleisio er enghraifft. Awgrymodd y byddai'r Senedd leuenctid yn gynulleidfa barod o 60. Croesawodd y dadansoddiad ond gofynnodd sut y gellir gwneud Prif Weinidog Cymru yn fwy amlwg er enghraifft.
32. Dywedodd y tîm fod yr arolwg defnyddio newyddion yn cael ei reoli ar hyn o bryd ac y bydd y canlyniadau ar gael yn yr haf. Bydd data o'r gwledydd penodol yn cael eu dadansoddi a'u cymharu â data o ymchwil blaenorol.
33. Wrth ateb cwestiwn gan RMcE, cadarnhaodd VH fod dadansoddiad ansoddol yn cael ei wneud yn hytrach na dadansoddiad meintiol.

Eitem 10: Cynllun Blynyddol Drafft 2019/20

34. Croesawodd y Cadeirydd Gary Clemo ac Alistair Henwood i'r cyfarfod drwy'r offer telegynhadledda. Roedd y tîm eisoes wedi cyflwyno papur i'r Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at ddatblygiadau ers cyflwyno'r papur. Bydd y papur terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron Bwrdd Ofcom ar 20^{fed} Mawrth.
35. Cafodd aelodau eu hatgoffa o'r blaenoriaethau cyfathrebiadau newydd a'r ddwy thema fawr ar gyfer y flwyddyn nesaf – gwasanaethau band eang a symudol gwell a ffocws o'r newydd ar degwch i ddefnyddwyr.
36. Mae cynllun eleni wedi rhoi mwy o amlygrwydd i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig rhag niwed ar-lein a chynnal y gwasanaeth post cyffredinol.
37. Gwnaeth RMcE sylw ynghylch darlledu. Ar hyn o bryd mae cryn drafod yng Nghymru ynghylch radio, toriadau mewn gwasanaethau ac ati, a chofio cyflymder newidiadau, mae'n bosibl y gallai'r Cynllun Blynyddol fynd yn rhy hen yn gyflym iawn. Cydnabu GC fod hwn yn faes sy'n peri pryder a bydd yn codi'r mater gyda'r tîm ynghylch yr adran ar ddarlledu.
38. Nododd AE fod rheoleiddio ar-lein yn dibynnu ar ymateb y llywodraeth. Cadarnhaodd GC fod gwaith Ofcom yn cyd-fynd â'i ddyletswyddau cyfredol.
39. Diolchodd HW i'r tîm am eu cyfraniad at y cyfarfod.

Eitem 11: Trafodaeth fewnol cyn y Digwyddiad Radio

40. Roedd HW eisoes wedi dosbarthu papur i'w drafod ac roedd hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r aelodau.

41. Cytunwyd y byddai Pwyllgor Cyngori Cymru yn ymateb i unrhyw drafodaethau ar flaenoriaethau ac awgrymwyd sefydlu gweithgor radio. Byddai hwn yn edrych ar bob maes mewn radio ac yn paratoi ymatebion ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.
42. Cafwyd trafodaeth ynghylch y gronfa radio gymunedol ac ansawdd y ceisiadau. Trafododd yr aelodau fantais llunio gweithgor, fodd bynnag cytunwyd bod angen data o ansawdd well yn bennaf. Dywedodd EW y gofynnir iddi'n fuan iawn pa ymchwil penodol sydd ei angen ar gyfer cyhoeddiad Cyfryngau'r Genedl nesaf Ofcom, felly gofynnodd i'r aelodau roi gwybod iddi am eu gofynion.

CAM GWEITHREDU – AELODAU PWYLLGOR CYNGHORI CYMRU/EW

Eitem 12: Gwneud i 5G Weithio i Gymru

43. Croesawodd y Cadeirydd David Warrender a Richard Condon o Innovation Point i'r cyfarfod.
44. Cafwyd trafodaeth ynghylch y gweithgareddau cyfredol a gweithgareddau i'r dyfodol sy'n ymwneud â 5G gan gynnwys heriau cynyddu darpariaeth 5G yng Nghymru.
45. Gofynnodd PT sut y gallai Pwyllgor Cyngori Cymru helpu i godi ymwybyddiaeth – awgrymodd DW y dylid parhau'r sgysiau â gweithredwyr y rhwydweithiau symudol er enghraifft.
46. Rhoddodd PT yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hefyd ynghylch yr arwerthiant sbectwm diweddaraf a dywedodd y disgwylir ail ddogfen ymgynghori a fydd yn tynnu sylw at gyfleoedd arloesi. Gwirfoddolodd PT i ddrafftio ymateb ysgrifenedig a'i ddsbarthu i'r aelodau i gael eu sylwadau.

CAM GWEITHREDU – PT

Eitem 13: Symud o Gwmpas yn yr Unfan: Delio â Chwynion ynghylch Telegyfathrebiadau

47. Siaradodd Karen Lewis a Jenny Borritt gerbron y cyfarfod gan gyflwyno ymchwil diweddaraf y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau – 'Symud o Gwmpas yn yr Unfan'.
48. Dywedasant fod y digwyddiad i randdeiliaid a oedd wedi cael ei ohirio wedi cael ei aildrefnu ar gyfer dyddiad diweddarach – i'w gadarnhau.
49. Mae'r ymchwil cyfredol hwn yn dilyn o'r ymchwil gwreiddiol a wnaed bum mlynedd yn ôl a rhoddodd JB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ei ganfyddiadau – cytunodd i anfon y ddolen at yr ymchwil cyfredol.

CAM GWEITHREDU – JB

50. Diolchodd HW i JB am y diweddariad.

Eitem 14: Diweddariad – Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

51. Roedd KL wedi dosbarthu adroddiad diweddarau ac ystyriwyd bod pawb wedi'i ddarllen. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:
 - a. Nid yw'r gostyngiad o ADR 8 wythnos i'r diwygiad o 4 wythnos wedi'i ddatrys o hyd ac mae hyn yn dal yn bryder i'r Panel.

- b. Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau wedi ymateb i ymgynghoriad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch 'sut gallwn ni wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo'
- c. Roedd KL wedi bod yn y digwyddiad y Gorau o'ch Gwesanaeth yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Chwefror.
- d. Roedd KL wedi bod mewn digwyddiad 'Digital Access for all' a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt yn gallu cael y rhyngwrwyd gartref ac effeithiau hynny ar eu bywydau bob dydd.

Eitem 15: Diweddariad ar Brexit

- 52. Croesawodd HW y tîm i'r cyfarfod drwy'r offer telegynhadledda. Roedd y tîm eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddar.
- 53. Ar ben hynny, rhoddodd Sophie Richings grynodedb o ganlyniad heddiw yn y Senedd Brydeinig.
- 54. Cafwyd trafodaeth am effeithiau posibl Brexit ar ddarlledu. Mynegodd HW bryder y byddai polisi arfaethedig y Llywodraeth y byddai Ofcom yn trwyddedu gwasanaethau yn y DU sydd o dan ei awdurdodaeth o dan yr ECTT yn rhoi gofynion ychwanegol ar lwyth gwaith Ofcom. Roedd y tîm o'r farn mai dim ond ar y dechrau y byddai hyn wrth i'r system gael ei sefydlu.
- 55. Gofynnodd RA am esboniad ynghylch y pwynt 'Mewn sefyllfa o ddim cytundeb byddai'r drefn trwyddedu darlledu yn newid. Byddem yn symud o'r fframwaith AVMSD a 'dull gweithredu Gwlad Wreiddiol'.

Eitem 16: Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru

- 56. Cafodd hwn ei ddsbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.
- 57. Holodd aelodau pa eitemau/gweithgareddau dylid eu nodi ar y Gofrestru Rhoddion a Lletygarwch. Bydd Ofcom Cymru yn cael eglurhad gan Jacqui Gregory ac yn ymateb.
CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru

Eitem 17: Unrhyw fater arall ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol-

- 58. Trefnu dyddiadau ar gyfer digwyddiad cymdeithasol cyn y cyfarfod nesaf (11 Mehefin).
CAM GWEITHREDU – Aelodau/HW/Ofcom Cymru
- 59. Ymateb drafft i'r ymgynghoriad 700 MHz. **CAM GWEITHREDU – PW/HW**

Eitemau 18-19: Er Gwybodaeth

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

11 Mehefin 2019 – Ofcom Cymru
(NODER Y NEWID O 20^{fed} MEHEFIN)

Cofnodion Pwyllgor Cyngori Cymru, 12^{fed} Mawrth 2019

Llofnod Dyddiad
Hywel Wiliam, Cadeirydd, Pwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom